**<u>COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 14 GORFFENNAF 2025</u>**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Cadeirydd (ar Zoom)

Peter Jones

Geoffrey Jones

Rory Francis

Dewi Prysor Williams

David Meirion Jones (ar Zoom)

Dafydd Dafis (ar Zoom)

Mark Thomas (ar Zoom)

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Naomi, Cynrychiolydd ar fater Plas Tan y Bwlch

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Morwenna Pugh, Gareth Davies, Troy Maclean a chan y Dirprwy Glerc, Ellen Pugh.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Materion Cadeirydd**

Adroddodd y Cadeirydd bod angen gwneud trefniadau i agor a chau'r Parc ac i gasglu sbwriel. Byddai'n rhaid cyflogi rhywun os na cheid gwirfoddolwyr. Cytunwyd rhoi eitem ar agenda'r cyfarfod Mwynderau nesaf. O ran agor neu gau'r Parc, cytunwyd gadael y lle ar agor oherwydd materion iechyd a diogelwch plant yn dringo ffensys. Ymataliodd Y Cynghorydd Mark Thomas rhag pleidleisio.

Adroddodd hefyd bod ond tri wedi mynychu cyfarfod safle cae Tanygrisiau a bod angen cynnal cyfarfod arall yr wythnos hon.

**4. Diweddariad gan yr Heddlu**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**5. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Cafwyd cyflwyniad ar y diweddaraf mewn perthynas â Phlas Tanybwlch. Cafwyd dyddiau agored ac roedd mwy na 300 wedi mynychu. Byddai grant o fwy na £2.5 miliwn yn dod. Bydd dau gam – datblygu cynlluniau i ddechrau ac yna dwy flynedd i'w datblygu hyd at ddiwedd 2027 ac yna byddai cais llawer mwy yn cael ei wneud.

Soniodd am y caffi a'r ystafell de, a bod holiadur arlein i gynghroau lleol. Byddai diwrnod agored arall tua Tachwedd.

Diolchwyd yn fawr i Naomi am ei chyflwyniad difyr, llawn gwybodaeth.

**6. Derbyn a chadarnhau Cofnodion**

Cofnodion Cyngor Arferol – 9 Mehefin 2025. Dan eitem 7, nododd y Cynghorydd Mark Thomas ei fod wedi gofyn am asesiad risg. Yn amodol ar nodi hynny, cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Geoffrey Jones bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Argymhellion Pwyllgor Digwyddiadau – 16 Mehefin 2025. Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Dewi Prysor bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Argymhellion Pwyllgor Mwynderau – 16 Mehefin 2025. Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd y Cynghorydd Peter Jones bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Argymhellion Pwyllgor Digwyddiadau – 23 Mehefin 2025. Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Argymhellion Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio – 30 Mehefin 2025. Cynigiodd y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd y Cynghorydd Dewi Prysor bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Cofnodion Cyngor Anarferol – 30 Mehefin 2025. Cynigiodd y Cynghorydd Rpry Ffrancis ac eiliodd y Cynghorydd dewi Prysor bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Cofnodion Cyngor Anarferol - 7 Gorffennaf 2025. Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Dewi Prysor bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

Argymhellion Pwyllgor Digwyddiadau – 7 Gorffennaf 2025. Cynigiodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths ac eiliodd y Cynghorydd Peter Jones bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

**7. Lloches Bws Heol Foty**

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu gosod lloches bws newydd ar y safle ac yn gofy i'r Cyngor Tref gymryd cyfrifoldeb amdano yn yr un modd ag y mae'r Cyngor yn gofalu am yr un bresennol. Cynigiodd y Cynghorydd Peter ones ac eiliodd y Cynghorydd Rory Francis bod y Cyngor Tref yn gwneud hyn a chytunodd pawb.

**8. Caffi'r Pafiliwn**

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd David Meirion Jones bod Is-bwyllgor yn cael ei ffurfio i fynd drwy'r rhestr waith a gwneud argymhellion i'w cyflwyno i'r Cyngor llawn. Aelodau'r Is-bwyllgor: Y Cynghorwyr Dafydd Dafis, David Meirion Jones, Geoffrey Jones, Rory Francis a Mark Thomas os gallai. Cytunodd pawb.

**9. Rhestr Taliadau a Derbyniadau**

Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd y Cynghorydd Dewi Prysor bod y rhestr yn cael ei derbyn a chytunodd pawb.

**10. Dŵr Cymru – tap yn y Berllan**

Adroddwyd bod pris wedi ei dderbyn gan Ddŵr C ymru i osod tap yn y Berllan. Ar ôl ystyried y pris, cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y Cyngor Tref yn peidio â gwneud hyn ac yn prynu tanc IBC arall i ddal dŵr. Cytunodd pawb.

**11. Enwau Lleoedd**

Adroddwyd am ohebiaeth a dderbyniwyd yn gofyn i'r Cyngor ysgrifennu at Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn gofyn am ddefnyddio enw Cymraeg Llyn Celanedd, yn hytrach na'r Spinnies sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Dewi Prysor bod y Cyngor Tref yn gwneud hyn a chytunodd pawb.

**12. Ceisiadau Cynllunio**

**i. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**
Rhif Cais / Application No.: C25/0426/03/AC
Lleoliad / Location: Welsh Slate, Blaenau Ffestiniog Quarry (oakeley Quarry), Rhiwbryfdir, Blaenau Ffestiniog,
LL41 3ND
Bwriad / Proposal:
Cais Adran 73 er mwyn diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C00M/0011/03/MW (Cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer ennill a gweithio mwynau ac adfer y safle hyd at 31/12/2065

Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Geoffrey Jones bod y Cyngor Tref yn cefnogi a chytunodd pawb.

**13. Gohebiaeth gan Perthyn**

Cyflwynwyd llythyr gan Perthyn, sy'n gwneud gwaith ar fentrau cymunedol lle mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol ac yn gofyn am gael siarad gyda chynghorau a mudiadau lleol. Cynigiodd y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd y Cynghorydd Geoffrey Jones bod y cyngor yn gwneud hynny a chytunodd pawb.

**14. Penodi Gwarchodwr i Ddiffibriliwr Tai'r Gelli**

Gwirfoddolodd y Cynghorydd Peter Jones i ofalu am y diffibriliwr hwn a diolchwyd iddo am hynny.

**15. CRAIG**

Cytunwyd bod y Clerc yn llunio taflen Yn nodi cyfrifoldebau grwpiau a phobl a oedd yn defnyddio caeau chwarae'r Cyngor Tref.

**16. Maes Parcio'r Berllan**

Dywedodd y Clerc y byddai'n mynd ar ôl y pensaer unwaith eto i gael diweddariad.

**17. Polyn Fflag**

Ar ôl trafodaeth, gwirfoddolodd y Cynghorydd Peter Jones a'r Cynghorydd David Meirion Jones i ofalu am y polyn fflag a diolchwyd iddynt.

**18. Grantiau Natur**

Adroddwyd bod rhagor o grantiau natur at gael a bod y Swyddog Partneriaeth Natur yn awgrymu Sgwâr Oakeley fel posibilrwydd. Cytunwyd ffurfio Is-bwyllgor, yn cynnwys y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths, Rory Francis, Mark Thomas a Tom Morris y garddwr.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.19pm